LC1422

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Hadau (Cymru) (Diwygiadau ar gyfer Cynnal Profion a Threialu etc.) 2007

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Hadau Betys (Cymru) 2005, Rheoliadau Hadau Yd (Cymru) 2005, Rheoliadau Hadau Planhigion Porthiant (Cymru) 2005, Rheoliadau Hadau Planhigion Olew a Ffibr (Cymru) 2004 a Rheoliadau Hadau Llysiau (Cymru) 2005 i roi effaith, mewn perthynas â Chymru, i Benderfyniad y Cyngor 2004/842 ynghylch gweithredu rheolau lle y caiff Aelod-wladwriaethau awdurdodi rhoi ar y farchnad at ddibenion cynnal profion a threialu hadau sy'n perthyn i amrywogaethau y cyflwynwyd cais ar eu cyfer i gael eu cofnodi yn y catalog cenedlaethol o amrywogaethau hadau planhigion neu lysiau ond nad yw hyd yn hyn wedi’i benderfynu.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Yn rheoliad 1, cyfeirir at yr offeryn fel ‘Order’ yn hytrach na ‘Regulations’ yn y testun Saesneg; mae’r dyddiad hefyd yn anghywir yn y testun Cymraeg a Saesneg gan ei fod yn cyfeirio at 2006 yn hytrach na 2007. [Rheol Sefydlog 11.7(v)].

Mae’r mân wall drafftio hwn yn addas i’w gywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau yn yr un modd â’r cywiriadau gramadegol angenrheidiol i weddill y rheoliad.

## Sylwadau

Yn y testun Saesneg, mae’r cyfeiriad yn y rhaglith at ymgynghoriad yn cynnwys cyfeiriad at "him" yn hytrach na "it". Gellir cywiro hwn ar y fersiwn o’r offeryn â llofnod arno.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 16 Ionawr 2007